



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Silwair Aml-doriad

Mae diddordeb cynyddol ymhlith cynhyrchwyr llaeth (yn bennaf) mewn cynaeafu pump neu chwech neu ragor o doriadau llai a mwy rheolaidd o silwair mewn tymor. Mae'r diwydiant yng Nghymru wedi sylwi ar y buddion a'r enillion mae ffermwyr yn yr Iseldiroedd a'r Unol Daleithiau yn eu mwynhau yn sgil system "silwair aml-doriad" ac maent yn dymuno rhoi cynnig ar hynny eu hunain. Ond beth yn union yw'r buddion a beth sydd angen ei sicrhau i wneud i'r system weithio?



Manteision? Mae dadansoddi wedi dangos fod silwair o system aml-doriad yn cynnwys mwy o egni (MJ ME) a lefel uwch o brotein crai (CP). Mae glaswellt ieuengach sy'n fwy deiliog ac â choesyndau byrrach yn golygu ansawdd gwell a phorthiant dibynadwy sy'n fwy cyson.



Enillion? Daw'r rhain yn sgil lefelau uwch o gymeriant fesul buwch oherwydd mae'r silwair yn haws ei dreulio, ac mae hynny'n sicrhau llaeth o ansawdd well a chynnydd yng nghyfanswm y llaeth a gynhyrchir, gwelliannau o ran iechyd y rwmen a ffrwythlondeb, mwy o laeth wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio cnydau porthi a gostyngiad yng nghostau prynu porthiant i mewn.

Unrhyw anfanteision?

Cynnydd mewn costau contractwyr?

Gall y cynnydd yng nghyfanswm y llaeth a gynhyrchir yn sgil gwelliant yn ansawdd y silwair wrthbwysu'r costau ychwanegol hyn. Am bob 5.3MJ o egni ychwanegol sydd ar gael yn sgil gwella ansawdd silwair, gellir cynhyrchu litr ychwanegol o laeth. Gallai 200 tonnell o silwair gynhyrchu 37,700 litr ychwanegol o laeth sy'n werth £10,900 (29c y litr).



Mwy o gywasgu pridd?

Archwiliwch eich caeau silwair yn rheolaidd; torrwcch dyllau â rhaw i asesu cywasgu, ac os byddwch yn canfod hynny, gweithredwch gamau unioni i adfer cyflwr y tir. Ystyriwch ddefnyddio teiars arnofio ar dractorau a threlars, a mabwysiadu dull 'rheoli traffig' o amaethu i gyfyngu ar y defnydd o olwynion ar y tir.



Halogi?

Gellir datrys pryderon yn ymwneud â glaswellt yn cael ei halogi wrth chwalu slyri rhwng toriadau trwy ddefnyddio dulliau chwistrellu neu wasgarwr esgid llusg cyn y toriad cyntaf a defnyddio bagiau o wrtaith rhwng toriadau. Os na ellir gwneud hyn, dylai slyri sy'n cael ei roi ar y tir rhwng toriadau fod â lefelau isel iawn o ddeunydd sych (DM) a dylid defnyddio dulliau chwistrellu neu esgid llusg i'w chwalu bob tro.



Byddwch yn barod: I sicrhau fod silwair aml-doriad yn llwyddiannus, mae angen gwneud y gwaith paratoi priodol. Mesurwch a chywirwch lefelau pH a mynegeion ffosffadau a photash y pridd, archwiliwch a chywirwch unrhyw broblemau cywasgu, sicrhewch fod gennych chi'r porfeydd priodol (rhygwellt parhaol diploid a thetraploid, yn hedeg ganol tymor ac yn hwyr) yn eu lle a bod gwrrtaith/slyri ar gael ar y fferm, a sicrhewch y bydd eich contractwr yn barod i wneud y gwaith pan fyddwch chi'n barod.

Sut?

Os bydd popeth yn ei le, cynlluniwch eich dyddiadau torri a'ch dull o reoli hynny yn ofalus. Os ydych chi'n bwriadu torri silwair bum gwaith â bwlch o 28-35 diwrnod rhwng bob toriad neu phan fydd y cnwd wedi cyrraedd 4000kgDM/ha (yn unol â'r arfer bresennol yn yr Iseldiroedd), efallai byddwch chi'n cychwyn torri ym mis Ebrill.



Maeth o laswellt

Lluniwch gynllun rheoli maetholion a chwalwch slyri pan fydd amgylchiadau'r pridd yn caniatáu hynny ac yn unol ag angen y cnwd yn gynnar yn y gwanwyn (10 wythnos) cyn y toriad cyntaf ar gyfradd o 25,000 litr yr hectar (2000 galwyn yr acer). Chwistrellwch y silwair neu defnyddiwch wasgarwr esgid llusg - peidiwch â defnyddio gwasgarwr plât sblasio. Mae'r cyngor ynghylch nitrogen yn dal yn wir - 2 uned fesul acer bob dydd - ond byddwch chi'n chwalu llai nag yn achos system 2/3 doriad - oddeutu 75kg yr hectar (60 uned yr acer). Os ydych chi'n defnyddio gwrrtaith cyfansawdd, dewiswch gynnyrch sy'n diwallu anghenion y glaswellt ac sy'n cyd-fynd â mynegeion y pridd - cysylltwch ag ymgynghorydd sydd â chymwysterau FACTS. Dylid osgoi chwalu rhagor o slyri rhwng toriadau neu dylid defnyddio slyri sydd â chanran isel iawn o ddeunydd sych a gaiff ei chwistrellu.

Tori a Chlampo Silwair

Torrwch y cnwd yn gynnar yn ystod y dydd, a chofiwch fod y rhain yn gnydau ysgafn ac mae arnynt angen llai o amser i wywo. Chwalwch y silwair o fewn 2 awr ar ôl ei dorri ac anelwch gyflawni targed o 30% o ddeunydd sych, fwy neu lai. Gall fod yn y clamp yn y prynhawn. Defnyddiwch ychwanegyn bacteriol (*Lactobacillus plantarum* neu *Pediococcus*) oherwydd mae cyfanswm y protein yn y cnwd yn uwch a chyfanswm y siwgr yn is. Mae'n laswellt ieuengach a mwy deiliog, ac mae'n hawdd ei gydgrynhoi yn y clamp, felly gall hyd y toriad fod yn hirach (6cm) a dylid llenwi'r clamp mewn haenau 6" yn cychwyn o'r tu allan, a dylid gwasgaru'r glaswellt yn wastad i'w rollo. Seliwch y clamp yn dda i sicrhau fod yr eplesu gorau yn digwydd ac i leihau colledion. Cofiwch y gall agor a chau clampiau mwy yn fwy rheolaidd olygu colli rhywfaint o'r ansawdd os na wneir hynny gan ddilyn arferion gorau; gall addasu trwy ddefnyddio mwy o glampiau fod yn un dull o ddatrys y mater hwn.



Pa ganlyniadau mae ffermwyr eraill yn llwyddo i'w sicrhau?

O ganlyniad i silwair o ansawdd well yn y dogn, gwelwyd cynnydd o ran cymeriant o 1-3kg o ddeunydd sych fesul buwch bob dydd, sy'n caniatáu i chi anelu at gynhyrchu rhagor o laeth o gnydau porthiant.

Os, er enghraifft, bydd ansawdd silwair yn gwella o 10.5ME i 11.5ME, byddai gwelliant o 1ME am bob cilogram o silwair yn y clamp yn gyfystyr â 200,000 MJ ychwanegol o egni o 200 tunel fetrig o silwair. Mae angen 5.3MJ o egni i gynhyrchu litr o laeth; mae'r 200,000 MJ ychwanegol o egni yn golygu 37,700 litr ychwanegol o laeth. Mae hynny'n golygu £10,900 o incwm ychwanegol ar bris o 29c y litr, o ganlyniad i wella ansawdd silwair. Mae llawer o ffermwyr sydd wedi newid i system aml-doriad yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd o 1 uned o ME yn ansawdd eu silwair.

Diweddariadau gan Ffermydd Cyswllt Ffermio

Prosiect [New Dairy Farm](#) Darllenwch am silwair sydd â gwerth treuliadwyedd o 72D, 11.6 MJ o egni metaboladwy ac 16.7% o brotein craidd, ac sy'n cynhyrchu 4 litr ychwanegol o laeth fesul buwch bob dydd.

Darllenwch am waith diweddar [Fferm Pied House](#) a [Gelli Aur](#) hefyd.

